OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 1039 (Cy. 109)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 25 (Bodelwyddan) i Gyffordd 28 (Rhuallt), Sir Ddinbych) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Ebrill 2013* |
| *Yn dod i rym* | *8 Mai 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55), (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar y traffig neu'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Mai 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 25 (Bodelwyddan) i Gyffordd 28 (Rhuallt), Sir Ddinbych) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 8 Mai 2013 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” *(“the lengths of the trunk road”)* yw’r darnau hynny o gefnffordd yr A55 yn Sir Ddinbych a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio yn y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar hyd y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr yn y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a’r gwaharddiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 30 Ebrill 2013

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd cerbydau, cerddwyr a beicwyr

i. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 27 (Llanelwy).

ii. Hyd cyfan y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 27 (Llanelwy).

iii. Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyffordd 27 (Llanelwy).

iv. Hyd cyfan y slipffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyffordd 27 (Llanelwy).

### ATODLEN 2
### Terfyn cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 25 (Bodelwyddan) hyd at ganolbwynt Cyffordd 28 (Rhuallt).